COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED RHOSYR A GYNHALWYD YN CANOLFAN YSGOL DWYRAN AM 7.00 O'R GLOCH NOS LUN HYDREF 8fed 2018

AELODAU'N BRESENNOL:

Cadeirydd Tim Owen
Cynghorwyr : Mr Thomas Hughes, Mr David Roberts , Cynghorydd Lowri Owen a Mrs Jane Sykes
Cynghorydd Angharad Jones , Cynghorwr Sir Bryan Owen a Cynghorydd Peter Rogers

1.YMDDIHEURIADAU : Cynghorydd Glenys Owen Cynghorydd Dennis Owen a Cynghorydd Jane Roberts a Gwylim Roberts a O.M.Thomas.

2: DATGAN DIDDORDEB : Datgan diddordeb gan y Cynghorydd Tim Owen.

3: COFNODION Y MIS BLAENOROL: Penderfyniad: Cadarnhawyd gan y Cynghorydd David Roberts a eilwyd gan y Cynghorydd Thomas Hughes Derbyniwyd y rhain ac arwyddwyd fel rhai cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Gorffennaf 30ed 2018.

4: MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL :

4.1 Pots Blodau yn Niwbwrch: Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i roi trwydded caniatâd cynllunio ar gyfer y potiau blodau ar y sgwâr yn Niwbwrch.

5: MYNWENTYDD, TORRI GLASWELLT A LLWYBRAU : Mae Alun Thomas wedi gofyn am ganiatâd i wneud gwaith atgywerio ar gyfer trelar y Cynghor Cymuned: Cytunodd y Cyngor Cymuned i'r atgyweiriadau hyn**.**

6: CEISIADAU CYNLLUNIO. Dim iw adrodd

7: PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO'R CYNGOR : Dim iw adrodd

8: ADRODDIADAU CYNGHORWYR : Fe wnaeth y Cynghorwyr Jane Sykes a David Roberts ddiweddaru'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r sefyllfa gyda stâd Pen y Bryn yn Nwyran a'r cyfarfod yn ystod mis Medi gyda Chynefin i drafod y problemau sydd yn parhaus gyda'r stad hon. Roedd y ddau gynghorydd hefyd yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ynglŷn â Chyfarfod y Grŵp Partneriaeth Llifogydd a'r gwaith a wnaed o ran amddiffyn rhag llifogydd yn Dwyran.

9: ADRODDIADAU CYNGOR SIR: Cadarnhaodd y Cynghorydd Bryan Owen fod y cyngor yn y broses o wneud gwaith torri gwrychoeoedd a cloddiau ledled Ynys Môn a bydd y gwrychoedd yn plwyf Rhosyr yn cael eu torri yn fuan, a bod y pontydd yn Llangaffo a Dwyran wedi cael eu profi am y gwaharddiadau pwysau gan Priffyrdd a o fewn y terfyn ryddhau angenrheidiol diogel. Gofynnodd y Cynghorydd Rogers am yr hen hysbysfwrdd yn Dwyan a chytunwyd i gael dyfynbrisiau ar gyfer hysbysfwrdd newydd ar gyfer Llangaffo oherwydd bod yr hen un yn amhosib i atgyweirio. Mynegodd y Cynghorydd Rogers bryder ynglŷn â'r oedi gyda'r gwaith adeiladu adeilad yr ysgol newydd yn Niwbwrch.

10; GOHEBIAETH : Awst a Medi 2018 : Gweler y daflen atodedig

11: MATERION ARIANNOL A GWEINYDDU:

11.1: Adroddiad Ariannol Misol: Datganiad Bank Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y cadeirydd.
11.2 Asesiadau Risg Ni chafwyd unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

12 : TALIADAU: Penderfynwyd talu'r canlynol: **£**

Tanwydd Ddraig Goch	139.54
Tanwydd Ddraig Goch	50.01
Rowena	43.22
Alun Thomas torri Glasswellt ayyb	2,241.30
Alun Thomas torri Glasswellt ayyb	1.048.30
Yswiriant Parc y Plant	224.08
Cylflog y clerc x 3	1,119.36

	£ 4,865.81

Arian a dderbyniwyd: £ 390. 00 o Mynwentydd a Llwybrau
£8,800 Precept
£1,043.84 Rhodd gan Gronfa Cymmunedol Dwyran

13. MATERION ERILL:

13.1 Mae angen torri nifer o wrychoedd ac ymylon a llwybrau troed. Wedi'u hysbysu'r Cyngor Sir ac Alun Thomas a threfnu i'r rhain gael eu torri .
13.2. Mae angen canllaw newydd ar gamfa Llwyn Ysgaw yn Dwyran: Penderfynwyd gofyn am un newydd gan Gyngor Sir Ynys Môn.
13.3. Gofynnodd y Cynghorydd Sykes pam roedd cyfyngiad cyflymder 40pmh wedi'i gyfyngu i ran fach o'r A4080 yn Dwyran: Penderfynwyd gofyn Priffyrdd pam na chafodd y cyfyngiad cyflymder hwn ei ymestyn i adran gyfan yr A4080 yn Dwyran. Gofynnwyd i camera cyflymder i gael ei osod ar y darn hwn o ffordd gan nad oedd cerbydau'n yn dal at y terfyn cyflymder newydd: Penderfynwyd gofyn am hyn gan Priffyrdd a Heddlu Gogledd Cymru.

13.4 Gwnaed cais i gael arwyddion rhybuddio ar gyfer tractorau a lorïau yn goryrru ar bont a ffordd Pen y Bont yn Dwyran. Penderfynwyd : i ofyn am arwyddion gan Gyngor Sir Ynys Môn.
13.5 Gwnaed cwynion ynghylch dim cyfleusterau toiled ar ffordd Mermaid ac roedd y twristiaid yn defnyddio y caeau ar hyd y ffordd hon. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Sir Ynys Môn i holi am rai cyfleusterau .
13.6 Gwnaed cwynion ynghylch llosgi sbwriel yn y cae ger Bronydd Dwyran: Penderfynwyd i hysbysu adran amgylcheddol Cyngor Sir Ynys Môn

BYDD Y CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED RHOSYR 7.00PM AR DDYDD LLUN 29 o HYDREF 2018 YN NEUADD Y PENTREF LLANGAFFO